*This document is available in English*

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

**Cynhelir cyfarfod o'r Panel Gweithredol ddydd Llun 15 Chwefror 2021 dros Zoom a bydd yn cychwyn am 10 o'r gloch y bore.**

Yn gywir

Colin Everett
Clerc

## AGENDA

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datganiad o Ddiddordebau**

3. **Rhybudd o Faterion Brys**

   Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys dan Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972.

4. **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 10 Chwefror 2020**

5. **Materion yn codi**

6. **COVID-19: Diweddariad (ar lafar)**

7. **Monitro Perfformiad Ebrill 2020 – Rhagfyr 2020**

8. **Prentisiaid Diffoddwyr Tân 'Arweinwyr y Dyfodol'**

9. **Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**

10. **Archwiliadau Diogel ac Iach**

11. **Brexit: wedi'r trosglwyddiad (adroddiad ar lafar)**

12. **Materion Brys**

    Ystyried unrhyw eitem y penderfyna'r Cadeirydd sy'n fater brys (o dan Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972) y nodwyd ei gynnwys o dan eitem 3 uchod.

**<u>RHAN II</u>**

Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) o Deddf Llywodraeth Leol, 1972 bod y Wasg a'r Cyhoedd i'w gwahardd o'r cyfarfod ar gyfer ystyried yr eitem(au) busnes canlynol am ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 i 18 o Ran 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn cael ei datgelu iddynt.

**Dim**

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 7**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **15 Chwefror 2021** |
| Swyddog Arweiniol | **Shân Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol (Polisi a Chynllunio Corfforaethol)** |
| Swyddog Cyswllt | **Pippa Hardwick, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol** |
| Pwnc | **Monitro Perfformiad Ebrill 2020 – Rhagfyr 2020** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am weithgarwch Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, a'i berfformiad mewn perthynas â'r amcanion gwella a llesiant, yn ystod tri chwarter cyntaf blwyddyn adrodd 2020/21.

## CRYNODEB

2 Aeth y Gwasanaeth at 3,600 o ddigwyddiadau brys yn ystod tri chwarter cyntaf 2020/21. Roedd hyn fymryn yn llai nag yn yr un tri chwarter yn 2019/20, sy'n adlewyrchu gostyngiadau yn nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd a'r tanau bwriadol, ond cynnydd hefyd yn nifer y tanau bach yn yr awyr agored.

3 Gellir priodoli'r gostyngiad yn nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd i'r ffaith fod llai o gerbydau ar y ffyrdd yn ystod y cyfnodau clo. Ond yn ddiddorol, fe wnaeth canran y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd pryd cafodd y Gwasanaeth ei alw i dynnu pobl allan neu ryddhau pobl o gerbydau, aros yn gyson â'r blynyddoedd blaenorol, sef 37%.

4 Mae'r gostyngiad yn nifer y tanau bwriadol yn gyfuniad o barhad yn y tueddiad cyson am i lawr yn nifer y prif danau bwriadol sydd wedi digwydd dros y pum mlynedd ddiwethaf a 36% o ostyngiad yn nifer y tanau eilaidd bwriadol. Fodd bynnag, mae galwadau at danau bychain mewn gerddi a sbwriel rhydd yn ystod y cyfnodau clo wedi cyfrannu at 39% o gynnydd mewn tanau eilaidd damweiniol.

## ARGYMHELLIAD

5 Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad.

**GWYBODAETH**

6 **Yr holl ddigwyddiadau**

Yn ystod tri chwarter cyntaf 2020/21, aeth y Gwasanaeth at 3,600 o ddigwyddiadau brys a galwadau diangen – sef 3.7% yn llai nag yn yr un cyfnod yn 2019/20.

7 **Tanau**

Aeth y Gwasanaeth at 1,408 o danau rhwng Ebrill a Rhagfyr 2020, o gymharu â 1,499 o danau rhwng Ebrill a Rhagfyr 2019. Roedd y cyfanswm cyffredinol hwn yn cynnwys 629 o brif danau, 690 o danau eilaidd, ac 88 o danau simnai.

Er bod llai o brif danau wedi cael eu cofnodi yn y categori bwriadol a'r categori damweiniol, nid felly yr oedd hi gyda'r tanau eilaidd. O ran y tanau hyn sy'n rhai llai o faint gan mwyaf, cafwyd 36% o ostyngiad yn nifer y rhai a gafodd eu cynnau'n fwriadol ond 29% o gynnydd yn y rhai a gafodd eu cynnau'n ddamweiniol.

8 **Galwadau diangen**

Aeth y Gwasanaeth at 1,777 o alwadau diangen yn ystod y cyfnod adrodd, sef mymryn yn fwy nag yn yr un misoedd yn 2019. Ond o fewn y cyfanswm, cafwyd gostyngiad bach (o 934 i 916) yn nifer yr achosion o alwadau diangen oherwydd systemau larymau tân awtomatig.

9 **Digwyddiadau gwasanaeth arbennig (sef digwyddiadau nad oeddent yn danau)**

Aeth y Gwasanaeth at 416 o ddigwyddiadau brys nad oeddent yn danau yn ystod tri chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol hon, o gymharu â 487 yn nhri chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Roedd y rhain yn cynnwys 81 o wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd, a bu'n rhaid tynnu pobl allan/rhyddhau mewn 37% o'r rhain. Yn ystod yr un misoedd y llynedd, aeth y Gwasanaeth at 144 o wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd (sef 43.8% yn fwy), gyda'r un ganran yn cynnwys tynnu pobl allan/rhyddhau.

10 **Tanau damweiniol mewn cartrefi**

Aeth y Gwasanaeth at 283 o danau damweiniol mewn cartrefi, sef pymtheg yn fwy nag yn nhri chwarter cyntaf 2019/20. Fe wnaeth y tanau damweiniol hyn mewn cartrefi arwain at un deg naw o bobl yn cael mân anafiadau, dau o bobl yn cael anafiadau difrifol a phedwar o bobl yn colli eu bywydau (bydd nifer derfynol y marwolaethau yn ddibynnol ar ddedfrydau'r crwner).

11 **Archwiliadau Diogel ac Iach**

Cafodd 9,064 o Archwiliadau Diogel ac Iach eu cynnal yn ystod y cyfnod. Cafodd 3,039 (34%) ohonynt eu cynnal i ymateb i atgyfeiriad gan asiantaeth sy'n bartner i ni.

12 **Larymau mwg/gwres**
Roedd o leiaf un larwm mwg/gwres wedi'i osod yn y rhan fwyaf (84%) o gartrefi yr aeth y Gwasanaeth atynt i ymateb i dân. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw larwm yn yr 16% arall.

13 Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth a chymariaethau gyda'r un tri chwarter yn y blynyddoedd blaenorol.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'n cynorthwyo'r Awdurdod i fonitro ei berfformiad mewn perthynas â'r amcanion gwella a llesiant sydd yng nghynllun cyfunol ar gyfer gwella a llesiant 2020/21. |
| Cyllideb | Mae'n cynorthwyo i dynnu sylw at unrhyw effeithiau posibl ar y gyllideb oherwydd lefel annisgwyl o weithgarwch mewn digwyddiadau. |
| Cyfreithiol | Mae'n cynorthwyo'r Awdurdod i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i ateb y gofynion newidiol sydd arno oherwydd newidiadau mewn gwaith ar gyfer digwyddiadau. |
| Staffio | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau. |
| Risgiau | Byddai peidio â bodloni'r gofynion cyfreithiol i adrodd ynghylch perfformiad a'i fonitro yn gallu effeithio ar y gallu i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i ateb y galw. |

# GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD

Am y naw mis

## Ebrill – Rhagfyr 2020


**Mae'r ffigyrau'n rhai dros dro a gallent fod yn agored i'w newid.**

**CYNNWYS**


| ADRODD YNGHYLCH GWAITH DIGWYDDIADAU | |
|---|---|
| | |
| **GOLWG GYFFREDINOL AR YR HOLL DDIGWYDDIADAU YR AETHPWYD ATYNT** | |
| Yr Holl Ddigwyddiadau | 1 |
| | |
| **TANAU YN ÔL CATEGORI** | |
| Tanau yn ôl categori a chymhelliad | 2 |
| Tanau yn ôl y math o eiddo a chymhelliad | 3 |
| | |
| **GALWADAU DIANGEN** | |
| Galwadau diangen yn ôl categori | 4 |
| | |
| **DIGWYDDIADAU GWASANAETH ARBENNIG** | |
| Digwyddiadau gwasanaeth arbennig yn ôl categori | 5 |
| Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd a Thynnu Pobl Allan/Rhyddhau | 6 |
| | |
| **MONITRO MEWN PERTHYNAS AG AMCAN GWELLA A LLESIANT – A** | |
| Tanau damweiniol mewn cartrefi | 7 |
| Marwolaethau ac anafusion oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | 8 |
| Archwiliadau Diogel ac Iach | 9 |
| Gweithrediad Larymau Mwg | 10 |
| | |
| **GEIRFA** | |
| Geirfa | 11 |

## 1.0 Yr Holl Ddigwyddiadau

**1.1** Yn ystod y naw mis cyntaf yn 2020/21, aeth y Gwasanaeth at 3,600 o ddigwyddiadau brys a galwadau diangen, sef 3.7% yn llai nag yn yr un cyfnod yn 2019/20.





| Categori | Bl. | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Hyd yma eleni | % y newid hyd yma eleni | Cyfartal-edd y 3 blynedd flaenorol | % y newid hyd yma eleni / Cyfartal-edd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y digwyddiadau yr aethpwyd atynt | 2020-21 | 1,379 | 1,228 | 996 | | 3,600 | ↓ 3.7% | 4,137 | ↓ 13% |
| | 2019-20 | 1,330 | 1,329 | 1078 | | 3,737 | | | |
| Cyfanswm y tanau | 2020-21 | 654 | 433 | 324 | | 1,407 | ↓ 6.14% | 1,645 | ↓ 14.5% |
| | 2019-20 | 586 | 521 | 392 | | 1,499 | | | |
| Cyfanswm y digwyddiadau gwasanaeth arbennig | 2020-21 | 98 | 181 | 137 | | 416 | ↓ 14.6% | 780 | ↓ 46.7% |
| | 2019-20 | 171 | 175 | 141 | | 487 | | | |
| Cyfanswm y galwadau diangen | 2020-21 | 627 | 614 | 535 | | 1,777 | ↑ 1.4% | 1,712 | ↑ 3.8% |
| | 2019-20 | 573 | 633 | 545 | | 1,751 | | | |

## 2.0 Tanau, yn ôl Categori a Chymhelliad

2.1 **Prif danau –** Yn ystod y cyfnod adrodd, cafwyd gostyngiad o 13.7% yn nifer y prif danau, sef i 629 o 729 yn y flwyddyn flaenorol.

2.2 **Tanau eilaidd –** Cafwyd 1.9% o gynnydd o 677 i 690 yn nifer gyffredinol y tanau eilaidd o gymharu â'r un cyfnod yn 2019/20. Mae nifer gyfartalog y tanau yn y tair blynedd flaenorol wedi cynyddu i 818, sef 18.4% yn uwch na'r cyfanswm o 691 o danau yn 2020/21.





| Categori | Bl. | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Hyd yma eleni | % y newid hyd yma eleni | Cyfartal-edd y 3 blynedd flaenorol | % y newid hyd yma eleni / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prif danau | 2020-21 | 225 | 217 | 190 | | 629 | ↓ 13.7% | 744 | ↓ 15.5% |
| | 2019-20 | 238 | 267 | 224 | | 729 | | | |
| Tanau eilaidd | 2020-21 | 394 | 202 | 95 | | 690 | ↑ 1.9% | 818 | ↓ 15.6% |
| | 2019-20 | 319 | 245 | 113 | | 677 | | | |
| Tanau simnai | 2020-21 | 35 | 14 | 39 | | 88 | ↓ 5.5% | 83 | ↑ 6% |
| | 2019-20 | 29 | 9 | 55 | | 93 | | | |

## 3.0 Prif Danau, yn ôl y Math o Eiddo a Chymhelliad

3.1 Yn ystod y cyfnod adrodd, cafodd 119 o brif danau eu cynnau'n fwriadol mewn adeiladau amhreswyl, o gymharu â 175 yn ystod yr un cyfnod yn 2019/20.

3.2 O'r tanau bwriadol uchod, fe wnaeth 32 ohonynt ddigwydd yng Ngharchar Berwyn, o gymharu â 49 yn y flwyddyn flaenorol.





| Categori | Bl. | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Eleni hyd yma | % y newid hyd yma eleni |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr holl brif danau bwriadol | 2020-21 | 39 | 46 | 34 | | 116 | ↓ 33% |
| | 2019-20 | 43 | 66 | 66 | | 175 | |
| Yr holl danau damweiniol | 2020-21 | 183 | 171 | 156 | | 510 | ↓ 7.9% |
| | 2019-20 | 195 | 201 | 158 | | 554 | |

| Cyfartal-edd y 3 blynedd flaenorol | % y newid hyd yma eleni / Cyfartal-edd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|
| 178 | ↓ 34.8% |
| 566 | ↓ 9.9% |

## 4.0 Galwadau Diangen

4.1 O gymharu'r ffigyrau am y tri chwarter cyntaf yn 2020/21 gyda'r un cyfnod yn 2019/20, cafwyd 1,777 o alwadau diangen, sef mymryn o gynnydd o 1.5% (o 1,751). Cafwyd 1.9% o ostyngiad yn nifer y galwadau diangen oherwydd larymau tân awtomatig (o 934 i 916). Fe wnaeth y galwadau diangen didwyll gynyddu 5.5%, sef o 785 i 829.





| | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | Cyfartaledd 3 blynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Larymau Tân Awtomatig | 924 | 856 | 889 | 934 | 916 | 893 |
| Didwyll | 722 | 737 | 842 | 785 | 829 | 788 |
| Maleisus | 42 | 30 | 30 | 32 | 32 | 31 |
| Cyfanswm | 1,688 | 1,623 | 1,761 | 1,751 | 1,777 | 1,712 |

| **Categori** | Bl. | **Ch.1** | **Ch.2** | **Ch.3** | **Ch.4** | **Hyd yma eleni** | **% y newid hyd yma eleni** | **Cyfartal-edd y 3 blynedd flaenorol** | **% y newid hyd yma eleni / Cyfartal-edd y 3 blynedd flaenorol** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y galwadau diangen | 2020-21 | 627 | 614 | 535 | | 1,777 | ↑ 1.5% | 1,711 | ↑ 3.9% |
| | 2019-20 | 573 | 633 | 545 | | 1,751 | | | |
| Larymau tân awtomatig | 2020-21 | 282 | 331 | 303 | | 916 | ↓ 1.9% | 893 | ↑ 2.6% |
| | 2019-20 | 288 | 339 | 307 | | 934 | | | |
| Galwadau diangen didwyll | 2020-21 | 328 | 282 | 218 | | 829 | ↑ 5.5% | 788 | ↑ 5.2% |
| | 2019-20 | 273 | 283 | 229 | | 785 | | | |
| Maleisus | 2020-21 | 17 | 1 | 14 | | 32 | → 0.0% | 31 | ↑ 3.2% |
| | 2019-20 | 12 | 11 | 9 | | 32 | | | |

## 5.0 Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig

5.1 Fe wnaeth nifer y digwyddiadau gwasanaeth arbennig ostwng 14.6% i 416 yn ystod y cyfnod adrodd, o gymharu â 487 yn ystod yr un cyfnod yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Fe wnaeth gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd gofnodi gostyngiad sylweddol o 43.8%, sef o 144 i 81 yn y tri chwarter rhwng Ebrill a Rhagfyr 2020/21, o gymharu â'r un cyfnod yn 2019/20. Gellid priodoli hyn i lai o draffig ar y ffyrdd oherwydd y cyfnodau clo cenedlaethol.





| | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|
| GRFfs | 159 | 159 | 162 | 144 | 81 |
| Heblaw gwrthdrawiadau (ac eithrio prosiectau) | 320 | 352 | 260 | 285 | 276 |
| Prosiectau blaenorol (Tîm Cymorth Cymunedol, Cyd-ymateb) | 273 | 721 | 121 | 0 | 0 |
| Prosiectau cyfredol (Ar goll o gartref, Dull Mynediad) | 21 | 19 | 60 | 58 | 59 |

| Categori | Bl. | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Hyd yma eleni | % y newid hyd yma eleni | Cyfartal-edd y 3 blynedd flaenorol | % y newid hyd yma eleni/Cyfartal-edd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y digwyddiad-au gwasanaeth arbennig | 2020-21 | 98 | 181 | 137 | | 416 | ↓ 14.6% | 780 | ↓ 46.7% |
| | 2019-20 | 171 | 175 | 141 | | 487 | | | |
| Gwrth-drawiadau traffig ar y ffyrdd | 2020-21 | 17 | 32 | 32 | | 81 | ↓ 43.8% | 155 | ↓ 47.7% |
| | 2019-20 | 53 | 58 | 33 | | 144 | | | |
| Heblaw gwrth-drawiadau traffig ar y ffyrdd | 2020-21 | 81 | 149 | 105 | | 335 | ↓ 2.3% | 299 | ↑ 12% |
| | 2019-20 | 118 | 117 | 108 | | 343 | | | |

## 6.0 Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd a Thynnu Pobl Allan/Rhyddhau

6.1 O'r 81 o wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yr aethpwyd atynt yn nhri chwarter cyntaf 2020/21, roedd 37% ohonynt wedi cynnwys yr angen i'r Gwasanaeth ddefnyddio offer i dynnu o leiaf un person wedi'i anafu o'r cerbyd, tra gwnaeth 41 arwain at anafiadau, er mai dim ond mân anafiadau gafodd y rhan fwyaf o'r anafusion.




Aethpwyd at **81** o wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd

**41** yn ddigwyddiadau lle cafodd pobl anaf neu eu lladd

**30** yn ddigwyddiadau lle bu'n rhaid tynnu pobl allan/rhyddhau


| Difrifoldeb yr Anaf* | Nifer y Bobl |
|---|---|
| Archwilad Rhagofalus | 10 |
| Cymorth Cyntaf | 6 |
| Mân Anafiadau | 26 |
| Anafiadau difrifol | 18 |
| Marwolaeth | 4 |

**Caiff anafiadau oherwydd gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd – pan maent ar gael – eu cofnodi yn yr IRS yn yr un categori ag anafiadau tân.*

## 7.0 Monitro mewn perthynas ag amcan Gwella a Llesiant A: *Cefnogi pobl i atal tanau damweiniol mewn cartrefi ac i aros yn ddiogel os bydd tanau o'r fath yn digwydd.*

### 7.1 Tanau damweiniol mewn cartrefi

Aeth y Gwasanaeth at 283 o danau damweiniol mewn cartrefi yn ystod tri chwarter cyntaf 2020/21 – sef pymtheg yn fwy nag yn nhri chwarter cyntaf 2019/20 (268 o danau damweiniol mewn cartrefi). Mae'r cynnydd bach hwn yn golygu bod y cyfanswm fymryn yn uwch na'r cyfartaledd tair blynedd.




| Categori | Bl. | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Hyd yma eleni | % y newid hyd yma eleni | Cyfartal-edd y 3 blynedd flaenorol | % y newid hyd yma eleni / Cyfartal-edd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tanau damweiniol mewn cartrefi | 2020-21 | 104 | 83 | 96 | | 283 | ↑ 5.6% | 268 | ↑ 5.6% |
| | 2019-20 | 98 | 88 | 82 | | 268 | | | |

## 8.0 Marwolaethau ac anafusion oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi

8.1 Cafwyd un farwolaeth a 2 anaf difrifol mewn tanau damweiniol mewn cartrefi yn nhrydedd chwarter 2020/21. Roedd nifer y mân anafiadau fymryn yn is nag yn ystod yr un cyfnod yn 2019/20. Er bod nifer yr archwiliadau rhagofalus wedi cynyddu o 14 i 23, roedd nifer y bobl oedd angen cymorth cyntaf ar y safle wedi gostwng o 32 i 21.


| Difrifoldeb yr anaf | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Archwiliad Rhagofalus | 41 | 24 | 10 | 14 | 23 |
| Cymorth Cyntaf | 29 | 20 | 17 | 32 | 21 |
| Mân anafiadau | 18 | 35 | 11 | 20 | 19 |
| Anafiadau difrifol | 6 | 2 | 2 | 3 | 2 |
| Marwolaeth | 3 | 1 | 5 | 3 | 4 |
| **Cyfanswm** | **97** | **82** | **45** | **72** | **69** |

| Categori | BI. | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Hyd yma eleni | Newid hyd yma eleni |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | 2020-21 | 26 | 15 | 24 | | 65 | ↓ 4 |
| | 2019-20 | 32 | 14 | 23 | | 69 | |
| Marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | 2020-21 | 3 | 0 | 1 | | 4 | ↑ 1 |
| | 2019-20 | 1 | 0 | 2 | | 3 | |

| Cyfartal-edd y 3 blynedd flaenorol | Newid hyd yma eleni / Cyfartal-edd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|
| 66 | ↓ 1 |

## 9.0 Archwiliadau Diogel ac Iach

9.1 Cafodd 9,064 o Archwiliadau Diogel ac Iach eu cynnal yn ystod y cyfnod. Cafodd 3,039 (34%) ohonynt eu cynnal i ymateb i atgyfeiriad a ddaeth gan asiantaeth sy'n bartner i ni.





| Categori | BI. | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Hyd yma eleni | Newid hyd yma eleni | Cyfartal-edd y 3 blynedd flaenorol | Newid hyd yma eleni / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| % o'r holl Archwiliadau Diogel ac Iach a gynhaliwyd ac a atgyfeiriwyd gan sefydliad sy'n bartner i ni | 2020-21 | 30% | 37% | 34% | | 34% | ↑ 5pp | 34% | → 0pp |
| | 2019-20 | 28% | 31% | 29% | | 29% | | | |

## 10.0 Larymau Mwg – Tanau mewn Cartrefi

10.1 Roedd larymau mwg/gwres ar gael yn y rhan fwyaf o danau mewn cartrefi, er nad oedd pob un wedi canu; nid oedd unrhyw larwm ar gael mewn 47 o'r 300 o danau mewn cartrefi yr adroddwyd yn eu cylch rhwng Ebrill a Rhagfyr.

10.2 O'r 300 o danau mewn cartrefi (damweiniol a bwriadol), roedd 267 wedi'u cyfyngu i'r ystafell lle cychwynnodd, lle'r aeth yr eitem ar dân i ddechrau, neu lle cafwyd difrod gwres/mwg yn unig.




| Categori | Bl. | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Hyd yma eleni | % y newid hyd yma eleni | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid hyd yma eleni / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Larwm mwg yno, wedi canu ac wedi rhoi rhybudd | 2020-21 | 50 | 37 | 51 | | 138 | ↑ 6.2% | 129 | ↑ 7.0% |
| | 2019-20 | 55 | 42 | 33 | | 130 | | | |
| Larwm mwg heb ganu | 2020-21 | 23 | 23 | 20 | | 66 | ↑ 3.1% | 69 | ↓ 4.3% |
| | 2019-20 | 18 | 28 | 18 | | 64 | | | |
| Larwm mwg yno, wedi canu ond heb roi rhybudd | 2020-21 | 19 | 16 | 14 | | 49 | ↓ 12.5% | 53 | ↓ 7.5% |
| | 2019-20 | 22 | 14 | 20 | | 56 | | | |
| Dim larwm mwg yno | 2020-21 | 17 | 15 | 15 | | 47 | ↑ 14.6% | 41 | ↑ 14.6% |
| | 2019-20 | 12 | 11 | 18 | | 41 | | | |

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| Tanau | Mae pob tân yn cael ei roi o fewn un o dri chategori, sef prif danau, tanau eilaidd neu danau simnai. |
| Prif Danau | Dyma danau nad ydynt yn danau simnai, ac sy'n digwydd mewn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio adfail), cerbydau, carafanau ac ôl-gerbydau, storfeydd y tu allan, gweithfeydd a pheiriannau, eiddo amaethyddol a choedwigoedd, ac adeileddau eraill y tu allan, megis pontydd, blychau postio, twneli ayyb.<br>Mae tanau yn unrhyw le yn brif danau os oes anafusion, achub neu ddianc, felly hefyd danau yn unrhyw le yr aeth pum neu ragor o beiriannau tân atynt. |
| Tanau Eilaidd | Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn danau simnai nac yn brif danau.<br>Nid yw tanau eilaidd yn golygu anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt.<br>Fel arfer, tanau eilaidd yw tanau sy'n digwydd mewn lleoliadau megis tir agored, coed unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried - yn yr un modd ag eiddo amaethyddol neu goedwigoedd - yn brif danau), dodrefn y tu allan, goleuadau traffig ayyb. |
| Tanau Simnai | Dyma danau mewn adeiladau sydd wedi'u meddiannu, lle mae'r tân wedi ei gyfyngu i'r simnai ei hun, hyd yn oed os oes gwres neu ddifrod oherwydd mwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simnai ei hun.<br>Nid yw tanau simnai'n golygu anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt. |
| Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig | Dyma ddigwyddiadau lle nad oes tân, a lle mae angen peiriant neu swyddog, ac maent yn cynnwys:<br>a) Argyfyngau lleol e.e. llifogydd, digwyddiadau traffig ar y ffyrdd, achub pobl, gwneud sefyllfa 'yn ddiogel' ayyb;<br>b) Trychinebau mawr;<br>c) Digwyddiadau domestig e.e. dŵr yn gollwng, pobl wedi eu cloi i mewn neu allan ayyb;<br>ch) Trefniadau o flaen llaw i fynd i ddigwyddiadau, a allai gynnwys darparu cyngor ac archwiliadau. |
| Galwadau diangen (cyfarwyddyd cyffredinol) | Pan fo'r GTA yn mynd i leoliad lle credir bod digwyddiad, ond o gyrraedd gwelir nad oes digwyddiad o'r fath yn bodoli neu wedi bodoli.<br>Sylwer: os bydd y peiriant yn cael 'ei droi'n ôl' gan yr Ystafell Reoli cyn cyrraedd y digwyddiad, ni chyfrifir ei fod wedi troi allan, ac nid oes angen adrodd yn ei gylch. |
| Galwadau diangen – Maleisus | Dyma alwadau a wneir gyda'r bwriad o gael y GTA i fynd i ddigwyddiad nad yw'n bodoli, gan gynnwys rhai bwriadol a lle amheuir eu bod yn faleisus. |
| Galwadau diangen – Didwyll | Dyma alwadau a wneir yn ddidwyll pan gredir bod y GTA yn wir yn mynd at dân neu ddigwyddiad gwasanaeth arbennig. |
| Galwadau diangen – larymau tân awtomatig | Dyma alwadau a ddaw gan larwm mwg ac offer diffodd tân. Maent yn cynnwys larwm yn canu trwy ddamwain neu pan fo larwm yn canu a rhywun yn galw'r GTA fel mater o drefn oherwydd trefniant sefydlog, h.y. heb 'benderfyniad', er enghraifft gan ganolfan alwadau diogelwch neu rywun wedi ei enwebu o fewn sefydliad). |

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **15 Chwefror 2021** |
| Swyddog Arweiniol | **Stuart Millington, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Stuart Millington,<br>Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (01745 535286)** |
| Pwnc | **Prentisiaid Diffoddwyr Tân 'Arweinwyr y Dyfodol'** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Rhoi disgrifiad i'r Aelodau o'r mesurau a gymerwyd i ddatblygu ein staff cyfredol ac i recriwtio dechreuwyr newydd sydd â'r potensial i gamu ymlaen i swyddi uwch yn y dyfodol.

2 Rhoi gwybod i'r Aelodau am y cynnydd a wnaed wrth recriwtio prentisiaid diffoddwyr tân 'Arweinwyr y Dyfodol'.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

3 Oherwydd gostyngiad yn nifer ac ansawdd yr ymgeiswyr sydd wedi cymryd rhan mewn prosesau dyrchafu yn y blynyddoedd diweddar, mae methiant wedi bod i benodi'n barhaol i swyddi ar wahanol lefelau o'r gwasanaeth gweithredol.

4 Mae'r mater yn un cymhleth, ac nid oes un ateb unigol. Fodd bynnag, defnyddiwyd nifer o wahanol fesurau er mwyn mynd i'r afael â'r broblem.

5 Mae llawer o'r mesurau yn ceisio canfod a meithrin talent o fewn y gweithlu presennol. Mae rhai eraill yn ymwneud â recriwtio dechreuwyr newydd sydd â'r potensial i gael eu datblygu'n gyflymach, gan ennill yr holl gymwyseddau angenrheidiol ar yr un pryd.

6 Am y tro cyntaf, bydd y Gwasanaeth yn cynnal rhaglen brentisiaethau i geisio recriwtio prentisiaid sydd â mwy o botensial i gamu ymlaen y tu hwnt i swydd diffoddwr tân ac i swyddi rheolwyr goruchwyliol, rheolwyr canol ac uwch reolwyr.

7 Mae'r gwaith o recriwtio prentisiaid 'Arweinwyr y Dyfodol' wedi cael ei wneud yn unol ag amcan yr Awdurdod Tân ac Achub o gynnal gweithlu sy'n addas o amrywiol, medrus, cydnerth, proffesiynol a hyblyg.

8 Erbyn diwedd y tair blynedd o brentisiaeth, bydd y rhai sydd wedi cwblhau'r rhaglen wedi cael profiad o weithio mewn gwahanol orsafoedd ac adrannau ymhob rhan o'r Gwasanaeth.

9 Bydd prentisiaid 'Arweinwyr y Dyfodol' yn gallu dangos lefel uchel o allu technegol ac ymarferol, ynghyd â phrofiad galwedigaethol a chymwysterau academaidd. Yna, byddant yn barod i gamu ymlaen i yrfa mewn swyddi rheolaethol.

**ARGYMHELLION**

10 Bod yr Aelodau'n nodi'r wybodaeth sydd yn yr adroddiad hwn.

**CEFNDIR**

11 Er mwyn darparu'r lefelau priodol o oruchwyliaeth a rheolaeth ar gyfer y gweithlu gweithredol, rhaid dewis y bobl iawn, sydd nid yn unig â'r wybodaeth dechnegol a gweithredol angenrheidiol ond sydd hefyd â'r potensial i gamu ymlaen i swyddi uwch.

12 Yn y blynyddoedd diweddar, mae llai o bobl wedi bod yn cymryd rhan yn yr elfennau cymhwysol o'r prosesau dyrchafu felly mae nifer yr aelodau o'r staff sydd â'r sgiliau gofynnol i gael eu hystyried ar gyfer dyrchafiad wedi bod yn llawer is nag yn y blynyddoedd blaenorol.

13 Mae'r rhai sydd wedi ennill yr elfennau cymhwysol gofynnol, ac wedi mynychu'r cyfweliadau ar gyfer lefelau rheolaeth oruchwyliol a rheolaeth ganol, wedi bod yn aml yn methu dangos dealltwriaeth o ymwybyddiaeth sefydliadol ehangach a'r gofynion corfforaethol sydd ar swyddog gweithredol.

14 Oherwydd y problemau o gael llai o ymgeiswyr yn cymryd rhan yn y prosesau dyrchafu, a gostyngiad yn ansawdd yr ymgeiswyr sy'n gwneud cais am ddyrchafiad, mae methiant wedi bod i benodi'n barhaol, ac mae nifer o aelodau o'r staff yn dal swyddi dros dro ar hyn o bryd.

15 Er mwyn deall yn well pam mae'r staff wedi bod yn gyndyn o gymryd rhan yn y prosesau dyrchafu, ac er mwyn cynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan ynddynt, defnyddiwyd cyfres o fesurau rhagweithiol.

16 Mae'r mesurau wedi cynnwys ymgysylltu â'r staff; hyrwyddo'r ffaith fod llawer o fanteision yn gysylltiedig â chamu ymlaen mewn gyrfa; annog rhagor i gymryd rhan yn y broses ddyrchafu, a chynnal digwyddiadau gweithdy i roi dealltwriaeth well i'r staff o sut i lwyddo yn yr elfennau cymhwysol o'r broses. Hefyd, mae nifer y cyfleoedd i'r staff ennill yr elfennau cymhwysol gofynnol wedi cynyddu o unwaith y flwyddyn i ddwywaith y flwyddyn.

17 Hefyd, cymerwyd nifer o fesurau i ddatblygu'r rhai sydd â thalent fel eu bod nid yn unig yn gallu cyrraedd y safonau angenrheidiol er mwyn cael y cyfweliad terfynol ond hefyd fel eu bod yn fwy parod pan fyddant yn gwneud hynny. Mae hyn wedi cynnwys canfod aelodau o'r Gwasanaeth yr ystyrir bod ganddynt 'botensial uchel' a rhoi cyfleoedd datblygu iddynt sy'n bwrpasol i'w hanghenion unigol nhw.

18 Datblygwyd sawl cyfle am weithdy a dosbarth meistr, a rhannwyd yr wybodaeth amdanynt â'r rhai sy'n cymryd rhan yn y prosesau dyrchafu. Dyma rai o feysydd y dosbarthiadau meistr: gohebiaeth ysgrifenedig, cysylltiadau â'r cyfryngau, cyllid, cael sgyrsiau anodd, gofynion swyddog corfforaethol, ac ymwybyddiaeth wleidyddol.

19 Yn y blynyddoedd blaenorol, mae prentisiaid wedi bod yn rhan annatod o strategaeth y Gwasanaeth ar gyfer recriwtio diffoddwyr tân gweithredol.

20 Mae'r Gwasanaeth wedi llwyddo eisoes i recriwtio a datblygu dau gohort o brentisiaid, gan eu galluogi i wneud cais am swydd barhaol ar ôl iddynt gymhwyso. Mae pob prentis diffoddwyr tân blaenorol wedi cael eu penodi i swyddi diffoddwyr tân parhaol.

21 Gan adeiladu ar lwyddiant y ddau gohort cyntaf o brentisiaid, a hefyd er mwyn mynd i'r afael yn rhagweithiol â'r angen i recriwtio rhai sydd â'r potensial i gamu ymlaen i swyddi uwch gyda lefel uwch o sicrwydd, crëwyd y cysyniad o brentisiaeth 'Arweinwyr y Dyfodol'.

**GWYBODAETH**

22 Dechreuodd y broses recriwtio yn gynnar yn 2020, gyda saib byr oherwydd cyfyngiadau COVID. Erbyn hyn, mae mesurau rheoli addas wedi caniatáu i ni oresgyn y cyfyngiadau ac mae'r broses wedi cael ei chwblhau.

23 Bydd prentisiaid 'Arweinwyr y Dyfodol' yn cael profiadau hyfforddi ychwanegol yn ystod eu tair blynedd o brentisiaeth. Bydd yn dod yn ofynnol yn eu contract eu bod yn llwyddo yn y gofynion achredu ar gyfer prentisiaeth diffoddwyr tân traddodiadol a hefyd yn y gofynion arweinyddol, yn y profion technegol a chanolfannau asesu a datblygu, yn ogystal ag wrth weithio mewn amrywiaeth o adrannau cefnogol. Bydd hyn i gyd yn paratoi'r prentisiaid ar gyfer eu llwybrau gyrfa.

24 Mae cyflawniad academaidd blaenorol yn ffordd resymol o ragweld gallu ymgeisydd i ymdopi â'r datblygiad dwys sydd ei angen yn y cyfnod o dair blynedd. Felly, roedd y gofynion mynediad ar gyfer prentisiaid 'Arweinwyr y Dyfodol' yn rhai ar lefel uwch nag ar gyfer y cohortau blaenorol o brentisiaid.

25 Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau gweithredu cadarnhaol cyn dechrau'r broses recriwtio. Bu'r gweithgareddau hyn yn llwyddiannus wrth helpu i sicrhau llawer mwy o amrywiaeth ymysg ymgeiswyr y grŵp nag a gafwyd mewn ymgyrchoedd recriwtio blaenorol.

26 Ar ôl ymgyrch recriwtio lwyddiannus mewn nifer o gamau, detholwyd deg ymgeisydd i'w penodi, ac os byddant yn pasio'r holl archwiliadau cyn-cyflogi, gan gynnwys archwiliad meddygol, byddant yn dechrau ar eu prentisiaethau ar 19 Ebrill 2021.

27 Mae'r grŵp a ddewiswyd yn un amrywiol a chytbwys o ran rhywedd, proffil oedran a lefel eu gallu i siarad Cymraeg.

28 Am y tro cyntaf, mae cyrraedd lefel dau yn y Gymraeg o fewn y cyfnod prawf, a lefel tri cyn diwedd y cwrs, yn ofyniad yn y contract i bob prentis diffoddwyr tân.

29 Bydd y rhan gyntaf o'u hyfforddiant yn canolbwyntio ar swydd diffoddwr tân gweithredol, a bydd yn cymryd 11 wythnos i'w chwblhau. Ar ôl cwblhau'r hyfforddiant cychwynnol, bydd y prentisiaid yn parhau â'u taith ddatblygu ac yn dechrau ar y cyntaf o nifer o gyfnodau mewn gwahanol adrannau ar draws y sefydliad. Byddant yn cael nifer o gyrsiau ac yn ennill nifer o gymwysterau ar y daith.

30 Ar ôl cwblhau'r tair blynedd o raglen, bydd y prentisiaid yn barod i gamu ymlaen i'r haen gyntaf o reolaeth linell, ond bydd ganddynt hefyd lawer o'r sgiliau a'r profiadau i'w galluogi i symud o reolaeth oruchwyliol i reolaeth ganol yn sydyn wedyn.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae pumed amcan llesiant yr Awdurdod yn ymwneud â chynnal gweithlu sy'n addas o amrywiol, cydnerth, medrus, proffesiynol a hyblyg. Mae prentisiaid yn rhan sylfaenol o'r broses o gyflawni'r amcan hwn. Bydd y rhaglen 'Arweinwyr y Dyfodol' yn adeiladu ar lwyddiannau'r ddwy raglen brentisiaethau flaenorol. |
| Cyllideb | Mae'r swyddi hyn eisoes wedi cael eu hystyried, ac maent wedi'u cynnwys ym mhroses yr Awdurdod o osod ei gyllideb ar gyfer 2021/22. |
| Cyfreithiol | Mae dyletswydd ar yr Awdurdod i ddarparu gweithlu sydd wedi cael hyfforddiant addas, ac i gynllunio ar gyfer y gofynion o ran sicrhau adnoddau ar gyfer y dyfodol. |
| Staffio | Bydd yr holl ofynion staffio i gefnogi'r gwaith o gynnal rhaglen brentisiaethau 'Arweinwyr y Dyfodol' yn dod o blith y gweithlu presennol. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Cyn dechrau'r broses recriwtio, ceisiodd y Gwasanaeth ymgysylltu ac annog ymgeiswyr o bob rhan o'r gymdeithas sydd fwyaf cynrychioliadol o gymunedau Gogledd Cymru. Rhaid i bob prentis gyrraedd lefel tri yn y Gymraeg cyn diwedd y cwrs. |
| Risgiau | Ni chanfuwyd dim. |

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 9**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **15 Chwefror 2021** |
| Swyddog Arweiniol | **Shân Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Shân Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol 01745535286** |
| Pwnc | **Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybod i'r Aelodau am ddyfodiad Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, ac mae'n amlinellu rhai o'r goblygiadau posibl i'r Awdurdod Tân ac Achub.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion am rai darpariaethau penodol o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae'n nodi'r ffaith fod Mesur Llywodraeth 2009 yn cael ei ddiddymu, a bod trefniadau perfformiad a llywodraethu newydd yn cael eu cyflwyno ar gyfer yr awdurdodau tân ac achub yng Nghymru. Mae'n nodi hefyd ddiwedd y gofyniad i Weinidogion Cymru gynnal ymchwiliad os byddant yn amrywio gorchymyn cyfuno awdurdod tân ac achub, ac eithrio mewn rhai amgylchiadau cyfyngedig. Ceir disgrifiad hefyd o reolau newydd am ddarlledu electronig, mynychu o bell a dogfennu cyfarfodydd awdurdodau tân ac achub. Mae hefyd yn nodi cymhlethdod rhai agweddau ar y Ddeddf, a'r angen i gael rheoliadau ychwanegol er mwyn dod â rhai adrannau i rym.

**ARGYMHELLION**

3 Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad.

**CEFNDIR**

4 Ar 20 Ionawr 2021, fe wnaeth Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) gael Cydsyniad Brenhinol a dod yn un o Ddeddfau Senedd Cymru.

5 Cafodd y Bil ei gyflwyno ym mis Tachwedd 2019 gan Julie James AoS, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, gan ddatgan mai ei bwrpas oedd darparu ar gyfer "*sefydlu fframwaith deddfwriaethol newydd a diwygiedig ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, democratiaeth, llywodraethiant a pherfformiad*".

6 Mae'r darpariaethau yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Deddf 2021) yn ymwneud ag amrywiaeth o faterion, sy'n cynnwys:

i. trefniadau etholiadol ar gyfer llywodraeth leol, gan gynnwys ymestyn cylchoedd etholiadol cynghorau o 4 i 5 mlynedd;
ii. pŵer cymhwysedd cyffredinol sy'n galluogi cynghorau cymhwysol i "weithredu er budd eu cymunedau" heb yr angen i bennu pwerau penodol i ymgymryd â gweithgaredd penodol;
iii. rôl y prif gynghorau yn annog cyfranogiad y cyhoedd mewn democratiaeth leol;
iv. hawliau rhai gweithwyr a deiliaid swyddi mewn awdurdod lleol (neu gyrff cysylltiedig) i sefyll am etholiad i'r awdurdod hwnnw heb orfod ymddiswyddo oni bai eu bod yn cael eu hethol;
v. mecanweithiau gweithio rhanbarthol, gan gynnwys uniadau gwirfoddol neu ailstrwythuro prif gynghorau;
vi. trefniadau perfformiad a llywodraethu;
vii. cyllid llywodraeth leol, gan gynnwys ardrethi annomestig a threth cyngor;
viii. materion 'amrywiol' yn ymwneud â:
    - rhannu gwybodaeth rhwng rheoleiddwyr,
    - penaethiaid gwasanaethau democrataidd,
    - pleidleisiau cymunedol,
    - Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru,
    - byrddau gwasanaethau cyhoeddus,
    - awdurdodau tân ac achub cyfunol: ymchwiliadau,
    - perfformiad a llywodraethu awdurdodau tân ac achub, a
    - Mesur Llywodraeth Leol 2009.

**GWYBODAETH**

7 Fel mae'r teitl yn ei awgrymu, mae Deddf 2021 yn gymwys i lywodraeth leol. Fodd bynnag, nid yw ei holl ddarpariaethau'n gymwys i bob corff sydd o fewn y diffiniad ehangach o lywodraeth leol. Nid yw bob amser yn amlwg ar unwaith a yw pob adran yn gymwys i awdurdod tân ac achub (ATA), neu sut mae'n gymwys iddo, a bydd nifer o'r darpariaethau yn dibynnu ar gael rheoliadau gwahanol gan Weinidogion Cymru.

8 Mae rhai o'r newidiadau ar gyfer ATAau yn ymwneud â'r canlynol:

- **Perfformiad a llywodraethu (adran 167):**

  Diwygiadau i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ATAau ddatblygu cynlluniau strategol a phennu beth y dylai'r cynlluniau hynny eu cynnwys. Gallai rheoliadau o'r fath bennu hefyd pa drefniadau a fyddai'n cael eu defnyddio i asesu perfformiad yr Awdurdod mewn perthynas â'r cynlluniau hyn ac mewn perthynas â'r Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub. Bydd y trefniadau perfformiad a llywodraethu ar gyfer prif gynghorau yn agored i reoliadau gwahanol, yn seiliedig ar hunanasesiad ac adolygiadau gan gymheiriaid.

- **Mesur Llywodraeth Leol 2009 (adrannau 168 a 169)**

  Mae Deddf 2021 yn diddymu Mesur Llywodraeth Leol 2009, felly mae'n dileu dyletswyddau'r Awdurdod ym maes cynllunio gwelliannau fel "awdurdod gwella Cymreig". Ni fydd angen mwyach i'r Awdurdod osod amcanion gwella o dan y Mesur hwn ond bydd angen iddo o hyd osod amcanion o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Hefyd, bydd angen i'r Awdurdod gyhoeddi un asesiad ôl-weithredol arall o'i berfformiad mewn perthynas ag amcanion gwella 2020/21 o dan y rheoliadau blaenorol, a hynny erbyn 31 Hydref 2021.

  Mae diddymu Mesur Llywodraeth Cymru 2009 hefyd yn golygu na fydd dyletswydd mwyach ar yr Archwilydd Cyffredinol i asesu, yn 2021/22, a yw'r Awdurdod wedi cyflawni ei rwymedigaethau ym maes gwella yn ystod 2020/21. Fodd bynnag, mae Archwilio Cymru wedi dweud eu bod yn ystyried ymgorffori'r gwaith hwn yn eu rhaglen archwilio yn 2021/22 er mwyn ardystio asesiad yr Awdurdod, yn Hydref 2021, o'i berfformiad mewn perthynas ag amcanion gwella 2020/21.

- **Awdurdodau tân ac achub cyfunol: ymchwiliadau (adran 166)**

  Mae'r adran hon o Ddeddf 2021 yn ymwneud ag ymchwiliadau i drefniadau cyllid a llywodraethu ATAau a sefydlwyd drwy orchmynion cyfuno o dan Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004. Mae Deddf 2004 yn cael ei diwygio i ddileu'r gofyniad i Weinidogion Cymru gynnal ymchwiliad pan fyddant amrywio gorchymyn cyfuno, ac eithrio os yw'r amrywiad naill ai'n newid yr ardal a wasanaethir gan yr ATA neu'n dirymu'r gorchymyn cyfuno gyda'r bwriad o greu cyfluniad cwbl wahanol o ATAau.

- **Darllediadau electronig o gyfarfodydd awdurdodau lleol (adran 46)**

  Mae'r adran hon yn ymwneud â dyletswyddau i brif gynghorau ddarlledu cyfarfodydd cynghorau tra maent yn digwydd, a hefyd i sicrhau bod recordiadau o ddarllediadau ar gael am gyfnod rhesymol ar ôl y cyfarfod. Er nad yw'r adran hon yn gymwys ar hyn o bryd i'r ATAau, mae'r Ddeddf yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a fyddai'n ymestyn gofynion tebyg i'r ATAau.

- **Mynychu cyfarfodydd (adran 47)**

  Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynnal cyfarfodydd awdurdodau lleol (yn yr achos hwn, mae awdurdod lleol yn cynnwys ATAau) yn gwbl rithiol neu'n rhannol rithiol.

Roedd Cylchlythyr Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru W-FRSC(2020)11, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2020, yn esbonio y byddai hyn, i'r ATAau, yn golygu y byddai mynychwyr, fel y lleiaf, yn gallu mynychu drwy gysylltiad sain yn unig, er enghraifft cynhadledd ffôn, ond na fyddai hyn yn atal yr ATAau rhag defnyddio cysylltiadau fideo os ydynt yn dymuno.

- **Hysbysiadau ynglŷn â chyfarfodydd, a dogfennau eraill (adrannau 49 a 50)**

  Mae'r adran hon yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynglŷn â sicrhau bod hysbysiadau a dogfennau ar gael.

9 Mae agweddau eraill ar Ddeddf 2021 yn llai eglur o ran eu heffaith gwirioneddol ar yr ATAau. Er enghraifft:

- **Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Gweithio Rhanbarthol**

  Mae adran 165 (uno a daduno byrddau gwasanaethu cyhoeddus) yn ymwneud yn glir â'r ATAau oherwydd maent yn aelodau statudol o'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus. Ond mae'r fframwaith ar gyfer cydweithio rhanbarthol a chydbwyllgorau corfforedig (Rhan 5 o'r Ddeddf) yn ymwneud â phrif gynghorau yn unig, er bod byrddau gwasanaethau cyhoeddus wedi'u rhestru yn Rhan 5 fel rhai i ymgynghori â nhw mewn gwahanol gamau. Felly, rhaid aros i weld sut bydd y trefniadau hyn yn gweithio yn ymarferol.

10 Y camau nesaf: Dros yr wythnosau nesaf, bydd y Swyddogion yn gweithio gyda'r Clerc i ganfod a chadarnhau pa feysydd o Ddeddf 2021 sy'n gymwys i'r Awdurdod, a pha newidiadau y bydd angen eu hymgorffori yn nogfennau perthnasol yr Awdurdod a pholisïau a/neu weithdrefnau'r Gwasanaeth. Caiff rhagor o adroddiadau eu darparu i'r Panel Gweithredol, y Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Safonau a/neu'r Awdurdod llawn, fel y bo'n briodol.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r ATA eisoes wedi cael dull cyfun o ymdrin â'i Amcanion Gwella a Llesiant. Fodd bynnag, gan na fydd yr ATA mwyach yn gorfod ymgymryd â dyletswyddau cynllunio gwelliannau o dan Fesur Llywodraeth Leol 2009, bydd ei sylw yn mynd ar osod Amcanion Llesiant, ac ar weithio tuag at y rheini. |
| Cyllideb | Bydd y gost o weithredu unrhyw ran o Ddeddf 2021 yn cael ei phennu fel rhan o'r camau nesaf a gynllunnir (paragraff 10 uchod). |

| | |
|---|---|
| Cyfreithiol | Bydd angen i'r ATA sicrhau ei fod yn canfod, ac yn sicrhau, cydymffurfiaeth â phob agwedd ar Ddeddf 2021 sy'n gymwys iddo. |
| Staffio | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Bydd angen i'r gwaith o ddatblygu neu ddiwygio polisïau, gweithdrefnau a threfniadau eraill gael ei asesu mewn perthynas â'r agweddau hyn yn ystod y broses o'u datblygu a'u gweithredu. |
| Risgiau | Risg o fethu â mynd ati'n gywir i ganfod a gweithredu'r agweddau hynny ar Ddeddf 2021 sy'n gymwys i'r ATA. |

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 10**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **15 Chwefror 2021** |
| Swyddog Arweiniol | **Richard Fairhead, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Paul Scott, Uwch Reolwr Diogelwch Tân 01745 535286** |
| Pwnc | **Archwiliadau Diogel ac Iach** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi gwybod i'r Aelodau am yr effaith y mae'r cyfyngiadau diweddar oherwydd COVID 19 wedi ei chael ar nifer yr Archwiliadau Diogel ac Iach a gynhaliwyd gan y Gwasanaeth eleni, a beth fydd yr effaith bosibl ar darged blynyddol yr Awdurdod ar gyfer cynnal yr archwiliadau.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'r cyfyngiadau oherwydd COVID-19 wedi golygu bod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) wedi gorfod newid ei fodel ar gyfer cynnal Archwiliadau Diogel ac Iach, sef drwy gynnal y rhan fwyaf ohonynt dros y ffôn. Mae'r nifer is o ymweliadau a gafodd eu cynnal yn bersonol wedi cael eu cyfyngu i gartrefi pobl sydd â risg arbennig o uchel o dân. Mae pob ymweliad o'r fath wedi bod yn destun asesiad risg llym er mwyn diogelu'r preswylydd/preswylwyr a staff y Gwasanaeth.

3 Felly, mae'r rhagolygon ar ddiwedd y flwyddyn o nifer yr archwiliadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn hon yn dangos y posibilrwydd o 40% yn is na tharged blynyddol yr Awdurdod, sef 20,000 o archwiliadau.

4 Tra bydd cyfyngiadau COVID-19 mewn grym, a hyd yn oed pan gaiff y cyfyngiadau eu codi, mae'n debygol y bydd angen i'r Gwasanaeth adolygu ei fodel cyflenwi Archwiliadau Diogel ac Iach arferol, ac o gael dulliau eraill o bosibl. Felly, efallai y bydd angen i'r Awdurdod ystyried newid ei darged blynyddol ar gyfer yr archwiliadau hyn yn y blynyddoedd i ddod.

**ARGYMHELLION**

5 Gofynnir i'r Aelodau:

a. nodi'r posibilrwydd o nifer is o Archwiliadau Diogel ac Iach a fydd wedi cael eu cynnal yn y flwyddyn ariannol hon o gymharu â'r targed o 20,000 a osodwyd cyn pandemig COVID-19; a

b. nodi bod posibilrwydd, yn ddibynnol ar COVID-19, y bydd y Gwasanaeth yn methu cyrraedd ei darged blynyddol o 20,000 o Archwiliadau Diogel ac Iach yn 2021/22.

**CEFNDIR**

6 Bydd yr Aelodau'n ymwybodol fod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, yn dilyn Adroddiad Tasglu'r Prif Swyddog Tân yn 2007 (a adolygwyd yn 2009), wedi mabwysiadu targed blynyddol o ddarparu 30,000 o Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref. Gan fod tua 300,000 o gartrefi yng Ngogledd Cymru, roedd y strategaeth yn seiliedig ar y posibilrwydd o ymweld â phob cartref o fewn cyfnod o ddeng mlynedd.

7 Oherwydd bod Llywodraeth Cymru, yn 2015, wedi gostwng y cyllid cyfalaf ar gyfer larymau mwg un-pwynt, cafodd y targed blynyddol ei ostwng o 30,000 i 20,000.

8 Ers yr adeg honno, mae'r cyllid cyfalaf wedi aros yr un fath ond mae cost unedau'r larymau wedi cynyddu, felly nifer is o'r larymau y gellir eu prynu.

**GWYBODAETH**

9 Pan gafodd y cyfnod clo cyntaf yng Nghymru oherwydd COVID-19 ei gyhoeddi ddiwedd mis Mawrth 2020, fe wnaeth y Gwasanaeth roi'r gorau i gynnal Archwiliadau Diogel ac Iach wyneb yn wyneb. Y rheswm am hynny oedd er mwyn cydymffurfio â'r cyfyngiadau symud ac er mwyn diogelu'r gymuned a'r staff a fyddai'n cynnal yr archwiliadau.

10 Yn hytrach nag ymweld â chartrefi yn bersonol, dechreuodd y Gwasanaeth gynnal mwy o archwiliadau dros y ffôn. Os gwelid bod angen larymau mwg, trefnid i fynd â'r rhain at yr eiddo. Mae rhai o'r staff a fyddai fel arfer yn cynnal archwiliadau yn bersonol wedi cael eu symud i ddyletswyddau eraill, gan gynnwys cefnogi'r ymateb amlasiantaethol i COVID 19.

11 Ym mis Awst 2020, ar ôl gwneud asesiadau risg llym, aeth y Gwasanaeth ati i adolygu ei benderfyniad ac i ailddechrau cynnal archwiliadau wyneb yn wyneb i unigolion a aseswyd fel rhai a oedd yn arbennig o agored i newid ac â risg uwch o dân.

12 Rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Ionawr 2021, fe wnaeth y Gwasanaeth gynnal cyfanswm o 9,919 o Archwiliadau Diogel ac Iach. O'r rhain, cafodd 2,229 eu cynnal yn bersonol yn yr eiddo, a chafodd y 7,690 arall eu cynnal dros y ffôn. O'r rhai a gafodd eu cynnal dros y ffôn, roedd 2,512 angen cael larwm mwg ar gyfer yr eiddo. Hyd yma eleni, mae mwy na 33% o'r archwiliadau wedi cael eu cynnal i ymateb i atgyfeiriad gan asiantaeth sy'n bartner i ni.

13 Amcangyfrifir mai tua 12,000 fydd cyfanswm yr Archwiliadau Diogel ac Iach yn 2020/21, a bydd tua 9,000 o'r rhain wedi digwydd dros y ffôn. Nid yw hyn yn cyrraedd y targed o 20,000 o archwiliadau, sef y targed a osodwyd gan yr Awdurdod o'r blaen, ond wrth i'r pandemig barhau, ystyrir ei bod yn briodol parhau gyda'r dull hwn o'u cynnal.

14 Os caiff y cyfyngiadau eu codi yn nes ymlaen yn 2021, bydd y Gwasanaeth yn ystyried dychwelyd i gynnal pob Archwiliad Diogel ac Iach wyneb yn wyneb, gan gymryd i ystyriaeth yr hyn a ddysgwyd yn ystod cyfnod y cyfyngiadau. Cydnabuwyd y fantais o gynnal archwiliadau dros y ffôn i gartrefi yr asesir eu bod yn rhai â 'risg isel', ac mae'n bosibl iawn y bydd hyn yn rhan o'r strategaeth o gynnal yr archwiliadau yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y caiff y cyfyngiadau eu codi'n llwyr o fis Ebrill 2021 ymlaen, felly bydd y Gwasanaeth yn parhau i adolygu'r dulliau yn ystod 2021/22, gyda'r nod o gyfyngu'r dulliau 'wyneb yn wyneb' i'r cartrefi yr asesir eu bod â'r risg uchaf o dân.

15 Er bod nifer is o Archwiliadau Diogel ac Iach wedi cael eu cynnal yn 2020/21, ac er i ni newid y model cyflenwi, mae'r Gwasanaeth yn parhau i ganolbwyntio ar ddarparu archwiliadau i'r bobl sydd â'r risg uchaf o farw mewn tân damweiniol mewn cartrefi. Byddwn ni'n parhau i weithio gyda'n partneriaid i ganfod y bobl sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau, ac i ddarparu archwiliadau priodol i'r cartrefi hynny.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Disgwylir bod nifer is na'r targed o Archwiliadau Diogel ac Iach wedi cael eu cynnal eleni. Mae'r amcan hirdymor o weithio tuag at wneud gwelliannau i iechyd, diogelwch a llesiant pobl yng Ngogledd Cymru yn parhau. |
| Cyllideb | Posibilrwydd y bydd cyllid grant yn cael ei leihau yn y blynyddoedd i ddod. |
| Cyfreithiol | Ni chanfuwyd dim. |
| Staffio | Ni chanfuwyd dim. Mae rhai aelodau o staff sydd fel arfer yn cynnal archwiliadau yn bersonol wedi cael eu symud i ddyletswyddau eraill dros dro. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Parheir i ganolbwyntio ar ddarparu i'r bobl sydd â'r risg uchaf o dân, sy'n cynnwys ystyried nodweddion personol megis oedran ac anabledd wrth asesu. Mae'r archwiliadau'n parhau i fod ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. |
| Risgiau | Drwy barhau i ddarparu archwiliadau mewn ffordd fwy targedol, rydym yn mynd i'r afael â'r posibilrwydd o'r risgiau cymunedol sy'n gysylltiedig â mwy o danau ac anafusion oherwydd tanau. |